# CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL
# PROTOCOL DATRYSIADAU LLEOL

**Mabwysiadwyd y Protocol Datrys Lleol hwn gan y Cyngor yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2018.**

## CEFNDIR

Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno â'r egwyddor y dylid cyfeirio rhai cwynion lefel isel yn erbyn Aelodau i Gynghorau Tref a Chymuned i'w datrys yn lleol.

Byddai'r materion y dylid eu hystyried o dan y broses hon yn cynnwys:

- Mân gwynion gan Aelodau am Aelodau
- Mân gwynion gan Swyddogion am Aelodau
- Aelodau yr honnir iddynt fethu dangos parch ac ystyriaeth i eraill – naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig

Y bwriad yw y bydd hyn yn cyflymu datrysiadau a / neu'n datrys materion yn fuan.

Nod y ddogfen yw darparu proses glir lle byddai Cyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll yn delio â chwynion o'r fath. Y bwriad yw cefnogi Gweithdrefn Cwynion y Cyngor a pheidio â'i disodli.

## MATERION NA DDYLID EU HYSTYRIED O DAN Y BROSES HON

Mae'r cwynion y mae'n rhaid eu cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnwys:

- Cwynion a wneir gan aelod o'r cyhoedd
- Torri amodau'r Cod Ymddygiad
- Cwynion difrifol – methiant i ddatgelu buddiannau/bwlïo/camddefnyddio swydd neu ymddiriedaeth/torri'r Cod dro ar ôl tro
- Cwynion a wnaed gan y Clerc
- Cwynion blinderus, maleisus neu wamal
- Cwynion Aelodau am swyddogion, y dylid delio â nhw trwy ddefnyddio proses cwynion mewnol y Cyngor
- Cwynion lefel isel ailadroddus.

## Y GŴYN

Rhaid danfon y gŵyn yn ysgrifenedig i Glerc y Cyngor, i wneud penderfyniad a yw'r gŵyn ar lefel isel a'i bod yn briodol i'r Cyngor Cymuned ddelio â hi.

Ar ôl gwneud y penderfyniad hwnnw, dylai'r Clerc geisio yn y lle cyntaf i gael datrysiad buan i unrhyw anghydfod o'r fath trwy drafod yn anffurfiol gyda'r aelodau unigol dan sylw cyn symud at y broses ddatrys.

Mae'n hollbwysig fod yr aelod 'cyhuddedig' yn cael manylion llawn am y gŵyn yn eu herbyn fel eu bod yn enw cyfiawnder naturiol mewn sefyllfa i baratoi eu hymateb i'r cyhuddiad.

## GWEITHDREFN DATRYSIAD

Bydd y Cadeirydd / Is-gadeirydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Clerc yn y broses ddatrys.

Rôl Cadeirydd/Is Gadeirydd y Cyngor yn y broses ganlynol yw peidio dyfarnu ar y gŵyn, ond yn hytrach ceisio cael yr Aelodau/swyddogion dan sylw i gytuno sut ellid datrys y mater(ion) mewn ffordd gyfeillgar.

# CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL
# PROTOCOL DATRYSIADAU LLEOL

Ni osodir unrhyw derfynau amser ffurfiol ond dylid dod â materion i ben yn ddi-oed er mwyn osgoi gwaethygu diangen ac annog y broses gyfryngu a chymodi.

***COFNODI***

Bydd y Clerc yn gweithredu fel hwylusydd ar gyfer y broses ddatrys a bydd yn cofnodi'r cyfarfodydd a gynhelir i hwyluso'r drafodaeth a datrys cwynion

Gellir defnyddio'r cofnodion i sicrhau bod cytundebau'n cael eu cadw, neu fel tystiolaeth pe byddai materion yn gwaethygu neu yn ail godi a bod angen cyfeirio'r mater at Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru.

Gellir eu defnyddio hefyd fel tystiolaeth os bydd yr ymddygiad a / neu ymddygiad yn y dyfodol yn cael eu torri ymhellach.

***Y DREFN***

- Os yw'r gŵyn rhwng Aelodau ac eithrio Cadeirydd y Cyngor, bydd y Clerc a'r Cadeirydd yn cyfarfod yn unigol â'r achwynydd a'r Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn/herbyn i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.
- Os yw'r gŵyn rhwng Aelodau, ac os yw un ohonynt yn Gadeirydd y Cyngor, ond nid yr Is Gadeirydd, bydd y Clerc/Swyddog Priodol a'r Is Gadeirydd yn cyfarfod â'r achwynydd a'r Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn/herbyn i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.
- Os gwnaed y gŵyn gan swyddog/gweithiwr, ond nid y Clerc, yn erbyn Aelod ac eithrio Cadeirydd y Cyngor, bydd y Clerc a Chadeirydd y Cyngor yn cyfarfod â'r swyddog a'r Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn/herbyn i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.
- Os gwnaed y gŵyn gan swyddog/gweithiwr, ond nid y Clerc, yn erbyn Cadeirydd y Cyngor, bydd y Clerc ac Is Gadeirydd y Cyngor yn cyfarfod â'r swyddog a'r Cadeirydd i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.
- Os gwnaed y gŵyn gan y Clerc/Swyddog Priodol, mae'n debyg mai'r arfer gorau fyddai danfon y gŵyn ymlaen ar ffurf cwyn at yr Ombwdsmon.

***CANLYNIADAU POSIB Y BROSES***

- Dod i gytundeb rhwng Aelodau a/neu swyddogion fel nad oes angen cymryd unrhyw gamau eraill.
- Os na ellir cael cytundeb byddai gan yr Aelod/swyddog a wnaeth y gŵyn y cyfle o hyd i gyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon.

***ENGHREIFFTIAU O GYTUNDEBAU***

- Llythyr yn ymddiheuro
- Addewid neu ymrwymiad ysgrifenedig i beidio torri'r Cod Ymddygiad yn y dyfodol
- Ymrwymiad i dderbyn hyfforddiant
- Cytundeb na ddylid, ar sail y dystiolaeth, cymryd unrhyw gamau pellach ac y dylid cau'r mater.